# Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023



Adra

# Cynnwys


**Darparu profiad rhagorol i'r cwsmer** 4

Boddhad Cwsmeriaid 4

**Darparu cartrefi o ansawdd i fod yn falch ohonynt** 6

Creu cartrefi diogel, o ansawdd 6

**Datgarboneiddio ein cartrefi** 8

**Cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu** 9

Cynhwysiant Ariannol 9

Academi Adra 10

Prosiect Sero Net Gwynedd 10

Cymorth Iechyd Meddwl 11

Gweithio mewn partneriaeth 11

**Cryfhau ein Busnes** 12

Iaith Gymraeg 13

Fframwaith Deunyddiau Cymru 13

Gwerth Cymdeithasol 14

Llywodraethu Corfforaethol 15

**Adroddiad Ariannol 2022/23** 16




## Gair gan Gadeirydd Bwrdd Adra - Hywel Eifion Jones

Mae'n bleser gennyf rannu ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022/23. Mae hon eto, wedi bod yn flwyddyn gynhyrchiol iawn, lle'r ydym wedi gweld twf yn ein sefydliad.

Mae'n anrhydedd cadeirio sefydliad sy'n flaengar, uchelgeisiol gyda chyfeiriad clir o ble y mae'n dymuno bod - sef wrth wraidd ein cymunedau. Rydym bob amser eisiau rhoi'r tenantiaid wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud ac mae'r blaenoriaethau corfforaethol i gyd yn ymwneud â gwella ansawdd bywyd ein tenantiaid a chymunedau.

Ail-lansiwyd ein fframwaith gyfranogi o'r enw 'Eich Llais', i gryfhau'r ffordd yr ydym yn cynnwys tenantiaid yng ngwaith Adra ac rydym yn dymuno parhau i weithio gyda thenantiaid i wella ein gwasanaethau.

Mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn brysur iawn i Adra ac mae'r adroddiad hwn yn dangos y gwaith da sydd wedi digwydd ym mhob rhan o'r sefydliad. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn gwella ansawdd ein cartrefi presennol ac wedi symud ymlaen gyda'n rhaglen ddatblygu uchelgeisiol ar draws rhannau mawr o Ogledd Cymru.

Yr ydym yn hynod falch o ddatblygiad parhaus Tŷ Gwyrddfai, hwb datgarboneiddio arloesol, a fydd yn helpu i wella'r economi leol, creu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl ifanc (yn ogystal â staff ni'n hunain) a chyfrannu yn sylweddol at yr ymdrechion i ddatgarboneiddio ein cartrefi. Mwy ar dudalen 8.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn heriol i denantiaid. Mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio arnyn nhw ac rydym yn cefnogi tenantiaid drwy waith allgymorth penodol, partneriaethau penodol i helpu pobl yn ariannol a chynnig llawer o gymorth, cyngor, a rhwydweithiau gwybodaeth.

Mae ein contractwyr hefyd wedi wynebu amser caled, wedi cael trafferth ymdopi yn ariannol ac mae sylw cynyddol ar y diwydiant tai a chymdeithasau tai yn genedlaethol i sicrhau bod eu cartrefi mewn cyflwr da. Rydym wedi ymateb yn bositif i'r heriau yma drwy adolygu a diweddaru ein cynlluniau a dulliau o weithio.

Ein Cynllun Corfforaethol yw prif yrrwr ein gwaith, cafodd ei fabwysiadu yn 2022 gan osod blaenoriaethau clir i Adra:

- Darparu profiad rhagorol i'r cwsmer
- Darparu cartrefi gwell y gallwn fod yn falch ohonyn nhw
- Datgarboneiddio ein cartrefi
- Cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu
- Cryfhau ein busnes.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd mawr yn ein gwaith yn ystod 2022/23 - mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r cyflawniadau yr ydym wedi'u gwneud yn erbyn y blaenoriaethau yma.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i symud ymlaen gyda'n meysydd blaenoriaeth o ran gwaith. Ni allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Mae gennym dîm o staff yn gweithio mewn bob math o wahanol rolau i'n cefnogi yn ein gwaith ac mae gennym ystod o bartneriaid yr ydym yn gweithio'n agos gyda nhw pob dydd o'r flwyddyn. Bydd partneriaethau newydd yn cael eu creu dros y flwyddyn nesaf hon ac yn cryfhau ein cysylltiadau gyda chymunedau lleol.

Rydym yn dymuno gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a rhoi pobl wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud.





Blaenoriaeth 1:

# Darparu profiad rhagorol i'r cwsmer

## Boddhad Cwsmeriaid

Mae ein cwsmeriaid bob amser wedi bod wrth wraidd yr hyn rydyn ni'n ei wneud - dyna pam rydyn ni yma a pham y byddwn ni bob amser yn edrych ar ffyrdd o wella'r profiad rydyn ni'n ei ddarparu i'n cwsmeriaid.

Rydym yn gwybod bod angen i ni wneud mwy fel ein bod yn bodloni disgwyliadau ein holl gwsmeriaid, a'n hethos fydd gwrando, deall a gweithredu ar yr hyn y mae tenantiaid yn ei ddweud wrthym ni.

Rydym felly, wedi lansio Eich Llais i roi fframwaith ar sut y gallwn wella profiad y cwsmer. Un o'n gwerthoedd craidd yw ein bod yn ddibynadwy fel sefydliad, ac mae'r ffordd newydd hon o weithio yn cyflwyno model hyblyg a chynhwysol ar gyfer cysylltu gyda'n tenantiaid.

**Adborth cwsmeriaid:**

- **90%** o gwsmeriaid yn fodlon gyda'r gwasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid
- **82%** o gwsmeriaid yn fodlon eu bod wedi cael cyfle i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau
- **73%** o'n cwsmeriaid yn fodlon ein bod yn gwrando ac yn gwneud rhywbeth am eu barn
- **78%** o gwsmeriaid yn fodlon ein bod yn rhoi llais iddynt ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli
- **88%** o'n cwsmeriaid yn fodlon ein bod yn ddibynadwy

Yn 2022/23 rydym wedi parhau gyda statws Gwasnaethau Rhagorol I Gwsmeriaid ac wedi derbyn clod gan aseswyr am fynd y filltir ychwannegol ar ran tenantiaid.



Blaenoriaeth 2:

# Darparu cartrefi o ansawdd i fod yn falch ohonynt

## Creu cartrefi diogel, o ansawdd

Rydym yn darparu cartrefi y gall pobl deimlo'n falch ohonynt, ar gyfer cwsmeriaid presennol a rhai newydd. Cartref diogel yw'r sylfaen ar gyfer bywyd hapus. Yn Adra, credwn fod gan bawb yr hawl i gael to uwch eu pennau a gallwn wireddu hynny.

Fel y gymdeithas tai mwyaf yng Ngogledd Cymru, rydym yn gwmni sefydlog. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau rheoleiddiol a chydymffurfio ac wedi rheoli pob risg cysylltiedig. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein cartrefi yn ddiogel drwy asesu eu bod yn cydymffurfio gyda'r meysydd iechyd a diogelwch cydnabyddedig, y '6 Mawr': legionella, diogelwch nwy, diogelwch trydanol, diogelwch lifft, asbestos, a diogelwch tân.

Erbyn 2025, byddwn yn datblygu dros **750** o gartrefi newydd ac yn buddsoddi **£60m** yn ein stoc gyfredol. Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod ein gweithgarwch datblygu yn cynnwys cartrefi newydd ar draws pob math o ddeiliadaeth, gyda thua **70%** o ddeiliadaethau fforddiadwy a thua **30%** o renti marchnad neu i'w gwerthu.

**Yn ystod 20223/23:**

- Dros **6,000** o wiriadau cydymffurfio systemau gwresogi wedi'u cynnal
- **14,000** o wiriadau diogelwch tân a gwasanaethau wedi'u cynnal
- **1,200** o atgyweiriadau cyflwr trydanol wedi'u cwblhau
- Dros **200** o asesiadau risg tân wedi'u cwblhau

**Ein Perfformiad:**

- **98.96%** yn cydymffurfio gyda meysydd iechyd a diogelwch y '6 Mawr'
- **100%** o asesiadau risg tân wedi'u cwblhau ar amser
- **99.13%** o gartrefi gyda thystysgrif gwresogi ddilys
- **100%** o gartrefi yn cydymffurfio gyda Safon Ansawdd Tai Cymru.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi **£44 miliwn**, gan gwblhau 119 o gartrefi newydd: 35 yng Ngwynedd; 50 yng Nghonwy; 2 yn Sir Ddinbych; 20 yn Wrecsam ac 11 yn Sir y Fflint. Mae gan holl gartrefi adeiladu o'r newydd Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) sgôr B neu uwch sy'n golygu bod yr eiddo yma yn rhatach i'w rhedeg i'n tenantiaid.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein stoc dai. Gwariwyd **£12.1m** ar uwchraddio ein cartrefi presennol a **494** o gartrefi wedi cael gwaith gwella. Roedd gwaith yn cynnwys gwaith allanol fel llwybrau a ffensio, gwaith mewnol fel adnewyddu ceginau, ystafelloedd ymolchi ac ailweirio a gwaith i wella'r tu allan - inswleiddiad wal, ffenestri UPVC, drysau a thoeau newydd.

Rydym yn deall pa mor bwysig yw'r tai yr ydym yn eu darparu i denantiaid, ac i ni. Rydym yn dymuno dal i fuddsoddi a gwario ar ein cartrefi.

- Rydym wedi delio gyda **19,281** o geisiadau i atgyweirio - **94%** yn iawn y tro cyntaf
- Rydym wedi lleihau nifer y gwaith atgyweirio 'dim mynediad' o **29%**.





Blaenoriaeth 3:
# Datgarboneiddio ein cartrefi

Mae'r her newid hinsawdd yn gofyn i ni gyd weithredu i gyfrannu at leihau allyriadau carbon lle bynnag a phryd bynnag y gallwn. Fel busnes rydym yn gwybod bod y rhan fwyaf (dros 90%) o'n hallyriadau carbon yn cael eu hallyrru o'n cartrefi.

Mae ein Strategaeth Rheoli Asedau yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi a, lle bo hynny'n bosib, gosod technolegau gwyrdd newydd fel rhywbeth safonol.

Mae gwaith wedi'i wneud yn Nhŷ Gwyrddfai, yr hwb datgarboneiddio newydd ym Mhenygroes.

Mae Adra yn arwain ar y gwaith o adnewyddu hen ffatri bapur Northwood a gaeodd ei ddrysau bedair blynedd yn ôl gan golli bron i 100 o swyddi gweithgynhyrchu.

Mae'r datblygiad yn brosiect ar y cyd rhwng Adra, Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor a bydd yn trawsnewid y safle yn hwb datgarboneiddio a fydd yn sicrhau bod Gogledd Orllewin Cymru yn flaenllaw yn yr agenda datgarboneiddio, gan weithio gyda chymunedau a busnesau i ôl-osod dros **18,000** o gartrefi dros y 10 mlynedd nesaf.

Roeddem yn hynod o falch o agor cam cyntaf y datblygiad yn 2022/23 drwy agor swyddfeydd sy'n safle i'n Tîm Trwsio, ein contractwyr mewnol.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi a gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi yn 2022/2023. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys:

- **12,416m²** o inswleiddio wal allanol wedi'u gosod
- **1,240** o ffenestri gwydr dwbl wedi'u gosod
- **160** boeler ynni effeithlon wedi'u gosod
- **118** o gartrefi newydd gydag EPC B neu uwch
- **50%** o staff wedi cael hyfforddiant llythrennedd carbon
- **151** o gartrefi wedi cael gwaith effeithlonrwydd ynni







Blaenoriaeth 4:
# Cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu

Mae ein hamcanion cymdeithasol yn golygu, yn ogystal â darparu cartref o ansawdd i bobl, ein bod hefyd yn edrych ar sut y gallwn gynorthwyo pobl i ddod o hyd i gyfleoedd i wella eu bywydau. Rydym yn ymfalchïo yn y gefnogaeth a roddwn i'n cwsmeriaid ac yn cydnabod y gallai'r gefnogaeth hon, yn dilyn pandemig Covid-19, fod yn bwysicach nag erioed.

Mae lleihau effaith tlodi tanwydd wedi bod yn her sylweddol i ni. Rydym eisiau cefnogi ein cwsmeriaid sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, problem sy'n dod yn fwy amlwg gyda chwyddiant, cyfraddau llog, costau tanwydd, a biliau ynni yn cynyddu.

Fel rhan o'r pecyn cymorth, rydym yn darparu gwasanaeth warden ynni i'n tenantiaid, lle rhoddir cyngor ar sut i leihau defnydd o ynni, sut i newid i dariff gwell a sut i ddefnyddio eu systemau gwresogi yn effeithiol. Mae'r wardeniaid hefyd yn darparu cymorth i geisio am grantiau a budd-daliadau, e.e. Disgownt Cartref Cynnes, Taliadau Tanwydd y Gaeaf, Grantiau DAF, disgowntiau Dŵr Cymru i wneud y mwyaf o incwm yr aelwyd.

Fel cipolwg:

- **229** cwsmer wedi cael cyngor ynni drwy'r wardeiniaid
- **504** o geisiadau Disgownt Cartref Cynnes wedi'u cyflwyno, **£85,669** mewn cymorth ac arbedion wedi'i gynhyrchu ar gyfer cwsmeriaid drwy gefnogaeth wedi'i dargedu
- **£100,000** Grant Wales a West Utilities wedi'i sicrhau i gyflogi dau warden ynni

## Cynhwysiant Ariannol

Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw eleni, mae Adra wedi sefydlu Grŵp Argyfwng Costau Byw Gwynedd ar y cyd gyda nifer o bartneriaid allweddol sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd, Grŵp Cynefin, Tai Gogledd Cymru, Cyngor ar Bopeth Gwynedd, Adran Gwaith a Phensiynau a'r Gwasanaeth Cyngor Arian a Phensiynau.

Yn ychwanegol at hyn, rydym wedi cynnal gweithdy staff gyda Sefydliad Bevan i adnabod ein prif flaenoriaethau o fewn y maes tlodi ar gyfer y flwyddyn i ddod.

I gynorthwyo ein tenantiaid ymhellach, rydym wedi creu rôl newydd, sef Cydlynydd Lles Ariannol.

Mae partneriaid led led Gogledd Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd ar y fenter Croeso Cynnes, i ddarparu lleoedd cynnes, diogel i bobl sy'n cael trafferth ymdopi gyda chostau ynni uwch gaeaf diwethaf.



## Prosiect Sero Net Gwynedd

Mae ein hymrwymiad i leihau ein heffaith amgylcheddol wedi cael ei gydnabod yn genedlaethol, fel y dangoswyd gan ein Prosiect Net Sero Gwynedd yn derbyn anrhydedd yng Ngwobrau Tai'r Gogledd.

Amcan y prosiect oedd sefydlu ffordd i ddiwallu a rheoli heriau datgarboneiddio stoc tai Gwynedd. Yn gweithio gyda nifer o brif bartneriaid a grwpiau cymunedol, rydym wedi canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth am arbed ynni o fewn cymunedau, gan ddangos buddion technolegau gwyrdd, cryfhau cadwyni cyflenwi drwy hyfforddiant wedi'i dargedu a chefnogi sefydlu Tŷ Gwyrddfai.

Adra sydd wedi arwain y prosiect, yn gweithio yn agos gyda Datblygiadau Egni Gwledig, Partneriaeth Ogwen, Grŵp Cynefin a Grŵp Llandrillo Menai.

Fel cipolwg:

- **11** swydd newydd wedi'u creu, gyda **10** unigolyn yn cael eu cofrestru ar gyfer cymwysterau newydd.
- Ymgysylltu gyda thros **2,000** o gartrefi yng Ngwynedd ar sut i arbed ynni.
- **116** o archwiliadau ynni wedi'u cynnal.
- Wedi ymgysylltu gyda thros **100** o gwmnïau drwy'r prosiect, gyda **47** yn cael budd o ddarpariaeth hyfforddiant newydd i wella sgiliau a gwybodaeth yn y maes datgarboneiddio.
- **5** hwb cymunedol wedi cael budd o fuddsoddiad cymedrol mewn technoleg newydd i leihau allyriadau carbon fel paneli solar a gwydr dwbl.

## Academi Adra

Mae cefnogi ein cwsmeriaid i hyfforddiant neu gyflogaeth wedi bod yn ganolbwynt i waith Academi Adra dros y 12 mis diwethaf. Ein nod yw cynorthwyo 500 o bobl i gyflogaeth a hyfforddiant rhwng 2022 a 2025.

**134** o bobl wedi cael cymorth i gyflogaeth a hyfforddiant yn 2022/23.

- **80** o'r rheiny wedi'u cefnogi drwy recriwtio a hyfforddiant wedi'i dargedu drwy ein contractau
- **43** wedi cael hyfforddiant galwedigaethol drwy Academi Adra
- **8** wedi'u cefnogi gyda phrentisiaethau a hyfforddiaethau o fewn Adra ac rydym wedi penodi **3** o'n tenantiaid i waith. Ar hyn o bryd mae **24** tenant yn cael eu cyflogi yn uniongyrchol gan Adra.



## Cymorth Iechyd Meddwl

Roedd gennym hefyd gytundebau ar waith gyda 3 hwb iechyd meddwl cymunedol yng Ngwynedd: Tan y Maen (Blaenau Ffestiniog); Canolfan Abbey Road, Bangor a Felin Fach, Pwllheli. **70** o gyfeiriadau wedi'u gwneud am gymorth dros y 12 mis diwethaf.

## Gweithio mewn partneriaeth

Rydym i gyd eisiau i'n tenantiaid fyw mewn amgylchedd diogel a braf. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n tenantiaid, heddlu, a chynghorau lleol, yn ogystal â sefydliadau eraill i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, datrys problemau a gwella ansawdd bywyd ein tenantiaid a thrigolion.

Yn 2022/23, rydym wedi delio gyda **607** o achosion gwrthgymdeithasol ac mae **90%** o'n tenantiaid wedi dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn eu cymdogaethau.

Rydym wedi gweithio ar nifer o brosiectau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys Prosiect Carn, lle'r oedd Adra yn gweithio gyda phartneriaid i wella murlun yn Llwybr y Plas, Caernarfon. Y nod oedd helpu pobl ifanc i gael balchder yn eu hardal leol, roedd gan y llwybr dan sylw hanes o weithgarwch troseddol.

Mae Adra wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r Grŵp Tir Allotment a Grŵp Orchard yn Nyffryn Ardudwy, i greu gerddi cymunedol o fewn rhandiroedd lleol. Cafodd y grŵp ddarn o dir nad oedd yn cael ei ddefnyddio gan Adra, ac mae dros **30** rhandir unigol yn awr wedi'u creu gan y grŵp - gyda'r gwirfoddolwyr wedi gwneud y gwaith i gyd.



Rydym hefyd wedi gweithio ar brosiect o'r enw Nid Dim Ond i Fechgyn, i annog menywod, yn ogystal â grwpiau tan gynrychiolaeth eraill i geisio am swyddi gyda ni. Cynhaliwyd digwyddiad yn Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes lle cafodd 65 o ferched gyfle i gael blas o weithio yn y sectorau tai ac adeiladu.



## Blaenoriaeth 5:

# Cryfhau ein Busnes

Rydym yn fusnes deinamig gyda diwylliant gweithle cryf ac iach. Yn erbyn cefnlen o drafferthion economaidd sylweddol, rydym wedi gweithio'n galed i groesawu meddylfryd masnachol yn ein diwylliant fel y gallwn edrych ar ffyrdd newydd a gwahanol o ddod ag incwm a pheidio â dibynnu ar yr un ffynonellau. Byddwn yn parhau i wneud hyn wrth i ni symud ymlaen - gan ganiatáu i ni ail-fuddsoddi arian dros ben yn y busnes i wella gwasanaethau, cyflawni ein hamcanion cymdeithasol ac adeiladu cartrefi mwy fforddiadwy.

**Erbyn 2025:** Byddwn wedi cynhyrchu **£600k** o arian dros ben drwy weithgareddau masnachol newydd.

**Eleni, rydym wedi:**

- Cyflwyno system 'Thrive' i'n helpu ni i fesur gwerth cymdeithasol ac effaith ein gweithgareddau
- Cymeradwyo strategaeth Gwerth am Arian i sicrhau bod yr holl arian sy'n cael ei wario yn cyflawni canlyniadau effeithiol, o ansawdd
- Dangosodd yr Arolwg Boddhad Staff a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn bod **95%** o staff yn hapus gydag Adra fel cyflogwr. Mae hyn yn uwch na'r targed o **90%** sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol.
- Rydym wedi adolygu ein portffolio o swyddfeydd ac wedi cau ein canolfannau yng Nghaernarfon a Phorthmadog, ac agor swyddfeydd ym Mhwllheli a Thŷ Gwyrddfai, Penygroes. Cafodd hyn ei wneud i ddarparu'r gwerth gorau am arian, i weithio'n agos gyda'n prif bartneriaid ac yn enghraifft Pwllheli i gael presenoldeb gwell i'n cwsmeriaid yn ardal Dwyfor.
- Mae Prosiect Perthyn, y fenter i hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn mynd o nerthi nerth, i sicrhau bod Adra yn delio gyda'i gwsmeriaid a staff gyda pharch drwy gyflawni'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
- Rydym yn parhau i gael achrediad i safonau ansawdd rhyngwladol, = ISO 90001, ISO14001, ISO 45003
- **£166mil** o warged gweithredu sy'n cael ei greu drwy weithgarwch masnachol



## Iaith Gymraeg

Mae gan Adra Gynllun Iaith Gymraeg ar waith gyda'r egwyddor sylfaenol o sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.

Ar ddiwedd 2022/2023, roedd **92%** o staff Adra yn gallu siarad Cymraeg ac rydym yn hyfforddi ac yn annog staff nad ydynt yn siarad Cymraeg i ddysgu'r iaith i sicrhau bod yr egwyddor ddwyieithog yn cael ei defnyddio ym mhob gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.

Roedd ein gweithgaredd yn cynnwys cyrsiau blasu i staff, ffair iaith yn Ysgol Dyffryn Nantlle, a thaith o amgylch pum ysgol yng Ngogledd Cymru gyda phrosiect 1Miliwn, sesiwn blasu Cymraeg yn Llys Dewi Sant (Bangor) a dathliadau Dydd Gŵyl Dewi ym Maes Padarn.



## Fframwaith Deunyddiau Cymru

Yn 2022/2023, bu i ni lansio fframwaith cenedlaethol newydd i ddarparu siop un stop ar gyfer deunyddiau gyda Travis Perkins Managed Services, rhan o fasnachwyr adeiladu mwyaf y DU, Travis Perkins PLC.

Ymunodd chwe aelod â'r fframwaith, sy'n cael ei reoli gan Adra, gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn, Cartrefi Conwy, Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Tai Calon, gyda'r fframwaith yn agored i holl gymdeithasu tai, awdurdodau lleol, a chyrff y sector gyhoeddus ehangach yng Nghymru. Enillodd Travis Perkins Managed Services y tendr darparwr gwasanaeth ac mae gan y cwmni ganghennau penodol ar gyfer aelodau fframwaith ledled Cymru, i gyflenwi deunyddiau.

Fel rhan o'r bartneriaeth arloesol hon, bydd aelodau Fframwaith Deunyddiau Cymru yn gyrru gwerth cymdeithasol, gyda Travis Perkins yn ymrwymo **1.5%** o gyfanswm gwariant y fframwaith ar ddeunyddiau i mewn i gronfa fuddsoddi gymunedol i gefnogi mentrau lleol, gan gynnwys cynnig cyfleoedd i hyfforddeion a phrentisiaethau.



## Gwerth Cymdeithasol

Fel busnes, rydym yn awr ddwy flynedd mewn i'n siwrnai gwerth cymdeithasol. Mae gennym Gydlynydd Gwerth Cymdeithasol i brif ffrydio gwerth cymdeithasol ym mhob rhan o'r sefydliad ac i'w wreiddio ym mhopeth yr ydym yn ei wneud. Ein nod yw parhau gyda'r siwrnai a gwella'r ffordd yr ydym yn dal y budd ychwanegol y mae ein gweithgareddau yn ei greu i'n tenantiaid a phartneriaid, pob blwyddyn.

Cyfanswm ein gwerth cymdeithasol yn 2022/2023 oedd **£5,751,074**. Gweler isod ddadansoddiad o'n gweithgarwch gwerth cymdeithasol mewn rhifau.

| Pobl | Cymunedau | Cartrefi | Amgylchedd |
|---|---|---|---|
| **134** wedi cael cymorth i gyflogaeth a hyfforddiant | **£16,916** o grantiau wedi'u rhoi i grwpiau cymunedol lleol | **93%** o'n tenantiaid yn fodlon gyda'r ffordd yr ydym yn atgyweirio, cynnal a chadw eu cartrefi | **151** o'n cartrefi wedi cael gwaith effeithlonrwydd ynni |
| **£724,000** wedi'i fuddsoddi ar addasiadau o fewn ein cartrefi | **52%** o'n cyflenwyr wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru | **118** o gartrefi newydd wedi'u hadeiladu | **9** o fannau gwyrdd wedi'u datblygu |
| **419** o ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig wedi cael cymorth | **£208,166** o werth cymdeithasol wedi'i gynhyrchu drwy gontractwyr neu isgontractwyr | **£12.1m** wedi'i fuddsoddi mewn gwaith a gwelliannau mawr i eiddo | **3** pwynt gwefru trydan wedi'u gosod ar gyfer cerbydau staff |
| **81** o bobl wedi cael cymorth drwy ein Gwasanaeth Cefnogaeth Tenantiaid | **90%** o'n tenantiaid yn teimlo'n ddiogel neu yn ddiogel iawn yn eu cymunedau | **19,281** o geisiadau atgyweirio wedi'u cwblhau yn ein cartrefi | **10%** o'n fflyd yn rhedeg yn gyfan gwbl ar drydan neu hybrid |




## Llywodraethu Corfforaethol

Mae ein Haelodau Bwrdd yn gosod ein blaenoriaethau a chyfeiriad strategol fel ein bod yn parhau yn solfent a sicrhau ein bod yn gweithredu yn dda ac o fewn y gyfraith. Mae gennym Fwrdd anweithredol gyda nifer hyblyg sy'n cynnwys rhwng 9 a 12 Aelod (heb gynnwys Aelodau cyfetholedig). Mae dau Aelod o'r Bwrdd yn Aelodau Tenant ac mae hyd at 24% wedi'u henwebu gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r gweddill yn aelodau Bwrdd annibynnol.

Gall y Bwrdd hefyd benodi hyd at 3 Aelod Cyfetholedig. Mae cyfrifoldebau pwysig ynghlwm â bod yn aelod o'r bwrdd. Rydym yn cynnal gwerthusiadau blynyddol o'n Haelodau Bwrdd – yn cynnig cymorth a hyfforddiant lle mae angen.

Mae ein Bwrdd yn cynnwys ystod eang o arbenigedd proffesiynol a masnachol, a gwybodaeth leol, yn ogystal â chyfoeth o sgiliau a phrofiad. Rydym yn cynnal gwerthusiad ar y cyd o'n Bwrdd ac yn cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan ddau Bwyllgor: Archwilio a Sicrwydd a Chwsmeriaid ac Asedau. Mae ganddynt bwerau dirprwyedig i wneud penderfyniadau a chraffu ar faterion penodol. Mae'r Panel Penodi, Cydnabyddiaeth a Disgyblu o'r Bwrdd yn cyfarfod yn ôl yr angen. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i gyflawni llywodraethu da a chydymffurfio gyda Chod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru.

Mae lefelau tâl y Bwrdd yn cael eu gosod yn unol â 'Pholisi Tâl y Bwrdd'. Fel gyda phob Landlord Cymdeithasol yng Nghymru, mae Adra yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru, drwy berthynas gyd-reoleiddio barhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi Dyfarniad Rheoleiddio i ni. Pwrpas y Dyfarniad yw rhoi dealltwriaeth i'r Gymdeithas, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill, o'n perfformiad o ran Llywodraethu a Darparu Gwasanaeth, a Rheolaeth Ariannol.

Yn dilyn ein Dyfarniad Rheoleiddio ym mis Hydref 2022, llwyddodd Adra i gadw'r gyfradd uchaf o "Cydymffurfiaeth – Gwyrdd" ar gyfer Llywodraethu a Darparu Gwasanaeth, a Hyfywedd Ariannol.

### Ein haelodau bwrdd yn ystod 2022/23

| **Tenantiaid** | |
|---|---|
| Lynn Rowlands (ymddeol Rhagfyr 2022) | Sharyn Williams |
| **Annibynnol** | **Aelodau sydd wedi'u henwebu gan Gyngor Gwynedd** |
| Hywel Eifion Jones | Berwyn Parry Jones (ymddeol Gorffennaf 2022) |
| Sasha Davies | Cai Larsen |
| Huw Gareth Pritchard | Dawn Jones (penodwyd Gorffennaf 2022) |
| Robert Lewis | **Aelod Cyfetholedig** |
| Selwyn Hayward (ymddeol Medi 2022) | Gwen Crawford |
| Mark Jones | Denise Stone |
| William Nixon | Dafydd Edwards (penodwyd Medi 2022) |

### Cyfranddalwyr

Roedd gan Adra **27** o gyfranddalwyr ar ddiwedd 2022/23. Mae cyfranddalwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau yn Adra drwy bleidleisio mewn Cyfarfodydd Cyffredinol.

# Adroddiad Ariannol 2022/23

| | 2023 £'m | 2022 £'m |
|---|---|---|
| **Cyfrif Incwm a Gwariant** | | |
| Trosiant | 42.9 | 40.1 |
| Gwarged Gweithredu | 9.2 | 10.8 |
| Gwarged am y Flwyddyn | 5.2 | 9.8 |
| Llog Taladwy | -4.1 | -3.6 |
| **Llif Arian** | | |
| Mewnlif Arian Net o Weithgareddau | 23.8 | 20.4 |
| Mewnlif / (All-lif) Arian Net | -1.9 | -2.7 |
| **Mantolen** | | |
| Net Asedau Sefydlog Cyffyrddadwy | 299.7 | 252.4 |
| Benthyciadau Tymor Hir Net | -154.0 | -139.0 |
| Asedau Net | 86.0 | 71.3 |
| **Trosiant** | | |
| Rhent Tai, Modurdai ac Eiddo Eraill | 35.2 | 32.9 |
| Tâl Gwasanaeth | 0.9 | 0.9 |
| Grant Llywodraeth Cymru | 4.1 | 4.1 |
| Eraill | 2.7 | 2.1 |
| **Cyfanswm** | **42.9** | **40.1** |
| **Gwariant** | | |
| Gwasanaethau | 2.3 | 2.2 |
| Rheoli | 11.6 | 9.7 |
| Cynnal a Chadw | 10.9 | 10.0 |
| Gwelliannau i'r Stoc Dai | 11.6 | 8.6 |
| Datblygiadau Newydd | 44.8 | 39.4 |
| Llog | 4.1 | 3.6 |
| Dibrisiant Tai | 8.6 | 6.9 |
| **Cyfanswm** | **93.9** | **80.4** |